

# Arts Award a Chwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol

## Cysylltu Arts Award â Chwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol yng Nghymru

Nod yr adnodd hwn yw arddangos sut y gall Arts Award gefnogi amcanion allweddol cwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol o ymgysylltu, cymell ac annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau creadigol, artistig a pherfformio'n llawn, gan ymdrin ag ystod o ddisgyblaethau celf, dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol, a cherddoriaeth. Gan amlinellu sut mae Arts Award yn cysylltu â phedwar diben y cwricwlwm newydd a sut y gall alinio â maes y Celfyddydau Mynegiannol o'r cwricwlwm newydd.

## Beth yw Arts Award?

Ystod o gymwysterau unigryw yw Arts Award sy'n cefnogi unrhyw un hyd at 25 oed i dyfu fel artistiaid ac arweinwyr yn y celfyddydau, gan eu hysbrydoli i gysylltu â, a chymryd rhan yn y byd celfyddydol ehangach, drwy gwblhau gweithgareddau mewn ffurf neu ffurfiau ar gelfyddyd - o ffasiwn i gelf ddigidol, perfformio a chynhyrchu cerddoriaeth, crochenwaith i farddoniaeth. Yn cael ei chynnig ar bum lefel wahanol, Darganfod (gwobr gyflwyniadol) Archwilio, Efydd, Arian ac Aur, caiff pobl ifanc y cyfle i:

- ddarganfod y mwynhad o greu a chymryd rhan mewn unrhyw ffurf ar gelfyddyd
- datblygu eu sgiliau creadigol ac arwain
- dysgu sgiliau newydd a'u rhannu gydag eraill
- gweithio neu brofi gweithio gyda gweithwyr proffesiynol y celfyddydau creadigol
- ennill profiad a gwybodaeth i fynd ymlaen i addysg bellach a datblygu

Drwy gydol y daith wobrau, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, dysgu am artistiaid a rhannu eu profiadau â phobl eraill. Ar y lefelau uwch, mae pobl ifanc yn datblygu eu sgiliau arwain yn y celfyddydau hefyd. Ar bob lefel, mae pobl ifanc yn cwblhau portffolio, gan gasglu tystiolaeth o'u profiadau celfyddydol wrth iddynt fynd yn eu blaenau y gellir ei chyflwyno mewn unrhyw fformat - copi caled neu ddigidol, a gall gynnwys ystod o dystiolaeth megis lluniau, fideos, adolygiadau, brasluniau a blogiau.

Gellir defnyddio'r wobr i strwythuro prosiectau trawsgwricwlaidd a gall gefnogi ymgysylltiad â phynciau nad ydynt yn gelfyddydol, er enghraifft Hanes, a gall hefyd gefnogi'r fframwaith ABCh. Mae'r fframwaith hyblyg, yn enwedig ar lefel Darganfod, Archwilio ac Efydd, yn ffafriol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a gellir ei ymgorffori mewn cynlluniau gwaith ar draws meysydd pwnc.


Ffoto: Ysgol Babanod a Meithrin Saint George

Mae Arts Award yn cydnabod yr holl ffurfiau ar gelfyddyd ac arferion creadigol. Er enghraifft, lle cyfeirir at 'waith celf', 'artist' a 'digwyddiad celfyddydol', gall hyn gyfeirio at unrhyw beth o gyfansoddi cerddoriaeth i farddoniaeth - o ffurfiau clasurol ar gelfyddyd i'r diwylliant digidol newydd.

Mae astudiaeth i effaith tymor hwy Arts Award ar bobl ifanc wedi dangos y gall cwblhau cymhwyster gynyddu:

- cyflawniad o Safon Uwch neu BTEC Lefel 3 yn y celfyddydau
- nifer y bobl ifanc sy'n astudio pynciau celfyddydol ar lefel AU
- effaith ar gyflawniad mewn pynciau eraill
- nifer y prosiectau artistig, hunangyfeiriedig
- cyfranogiad yn y celfyddydau

## Prif ganfyddiadau'r Astudiaeth Effaith:

Mae pum maes allweddol lle canfuwyd bod Arts Award yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc, fel y dangosir drwy ganlyniadau ein hastudiaeth effaith tair blynedd dan arweiniad London South Bank University.

| | |
|---|---|
| Sgiliau Bywyd | O'r nifer o effeithiau cadarnhaol y gall Arts Award eu cael ar bobl ifanc, maes allweddol yw datblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith, megis mwy o hyder, sgiliau arwain a threfnu. |
| Achrediad | Mae Arts Award yn gymhwyster uchel ei barch a chyffredinol, wedi'i seilio ar ymagweddau cadarn at addysgu a dysgu. |
| Dewisiadau Celfyddydol | Mae Arts Award yn dylanwadu ar ddewis cwrs pobl ifanc ac yn cefnogi ceisiadau llwyddiannus ar gyfer astudiaeth bellach. |
| Sgiliau Entrepreneuraidd | Mae cwblhau Arts Award yn annog dysgu annibynnol, creadigrwydd a sgiliau cyfathrebu; pob un yn hanfodol ar gyfer gyrfa fel gweithiwr llawrydd neu entrepreneur yn y celfyddydau neu ar gyfer gyrfaoedd y tu hwnt i'r celfyddydau. |
| Creadigrwydd am Oes | Mae Arts Award yn datblygu pobl ifanc o bob cefndir i fod yn artistiaid creadigol ac arweinwyr yn y celfyddydau, gan feithrin eu dealltwriaeth o lwybrau i addysg a chyflogaeth yn y sector creadigol a diwylliannol. |

Llun clawr: Ysgol Gynradd Gatholig yr Abaty




Ffoto: Ysgol y Brenin, Worcester

# Darganfod

artsaward.org.uk/discover

Rhan A: Darganfod

Cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd er mwyn ehangu eu profiad a dealltwriaeth o'r celfyddydau.


Rhan B: Dysgu

Dysgu am o leiaf un artist a'u gwaith er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ymarfer celfyddydol.

Rhan C: Rhannu

Rhannu gydag eraill yr hyn y gwnaethon nhw ei fwynhau a'i ddysgu drwy'r wobr.

Mae Arts Award Darganfod wedi'i chynllunio ar gyfer oedrannau 5-9 (yn benodol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a gwaelod Cyfnod Allweddol 2), ond mae'n agored i unrhyw un hyd at 25 oed. Mae Darganfod yn dystysgrif gyflwyniadol



# Archwilio

artsaward.org.uk/explore

Rhan A: Cymryd Rhan

Cymryd rhan mewn o leiaf dau weithgaredd celfyddydol i estyn eu profiadau a dealltwriaeth o'r celfyddydau a datblygu sgiliau celfyddydol.

Rhan B: Archwilio

Archwilio gwaith o leiaf un artist ac un sefydliad celfyddydol drwy brofiad byw neu actif.

Rhan C: Creu

Creu darn o waith celf i arddangos sgiliau celfyddydol a chofnodi'r cynnydd o wneud eu gwaith celf.

Rhan D: Rhannu

Gan edrych yn ôl ar y gweithgareddau a gwblhawyd ar gyfer Rhannau A, B a C, mae pobl ifanc yn dewis gweithgaredd/profiad sy'n adlewyrchu orau eu mwynhad a/neu gyflawniad personol wrth gwblhau'r wobr. Maent yn rhannu gydag eraill manylion yr hyn y gwnaethon nhw ei fwynhau a/neu ei gyflawni a pham.

Mae Arts Award Archwilio yn gymhwyster Mynediad Lefel 3 wedi'i gynllunio ar gyfer oedrannau 7-11 (yn benodol ar gyfer rhan uchaf Cyfnod Allweddol 2), ond mae'n agored i unrhyw un hyd at 25 oed.

Ofqual: 600/3894/9

QiW: C00/0420/1

# Efydd

## artsaward.org.uk/bronze

Rhan A: Archwilio'r celfyddydau
fel cyfranogwr

Datblygu diddordebau, gwybodaeth a sgiliau drwy gyfranogiad gweithredol mewn unrhyw ffurf ar gelfyddyd.

Rhan B: Archwilio'r celfyddydau fel aelod o'r gynulleidfa

Profi o leiaf un digwyddiad celfyddydol fel aelod o'r gynulleidfa.

Rhan C: Ysbrydoliaeth Gelfyddydol

Ymchwilio i waith artist sy'n eu hysbrydoli.

Rhan D: Rhannu Sgiliau Celfyddydol

Trosglwyddo sgiliau celfyddydol i eraill.

Mae Arts Award Efydd yn gymhwyster Lefel 1 wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc 11 oed a hŷn (yn benodol Cyfnod Allweddol 3), ond mae'n agored i unrhyw un hyd at 25 oed.

Ofqual: 501/0081/6

QiW: C00/0200/5

# Arian

## artsaward.org.uk/silver

Uned 1 - Ymarfer celfyddydol a llwybrau

- adnabod a chynllunio her gelfyddydol
- gweithredu ac adolygu eu her gelfyddydol
- adolygu digwyddiadau/profiadau celfyddydol a rhannu eu barn
- ymchwilio i gyfleoedd a gyrfaoedd yn y celfyddydau yn y dyfodol


Uned 2 - Arwain y celfyddydau

- adnabod rôl arwain a chynllunio prosiect arwain y celfyddydau
- cynllunio'r materion ymarferol
- bod yn arweinydd effeithiol yn y celfyddydau
- gweithio'n effeithiol ag eraill
- adolygu eu prosiect a datblygiad eu sgiliau arwain

Mae Arts Award Arian yn gymhwyster Lefel 2 wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc 14 oed a hŷn, ond mae'n agored i unrhyw un hyd at 25 oed.

Ofqual: 500/9914/0

QiW: C00/0211/8



# Aur

## artsaward.org.uk/gold

Uned 1 - Datblygiad celfyddydol personol

- ehangu eu hymarfer celfyddydol eu hunain, profi ffurf arall ar gelfyddyd a chreu gwaith newydd
- adnabod a chymryd rhan yn y byd celfyddydol drwy leoliadau, gwirfoddoli, hyfforddiant ac ymchwil
- adolygu digwyddiadau/profiadau celfyddydol a dysgu mwy am artistiaid a'u llwybrau gyrfa
- cyflwyno mater yn ymwneud â'r celfyddydau a dadlau'r achos


Uned 2 - Arwain prosiect celfyddydol

- cynllunio prosiect celfyddydol, gan adnabod nodau a chanlyniadau'r prosiect
- trefnu'r bobl a'r adnoddau
- darparu'r prosiect a rheoli effeithiolrwydd y prosiect
- rheoli dangos/rhannu'r gwaith yn gyhoeddus
- adolygu datblygiad eu sgiliau arwain a dod o hyd i ffyrdd effeithiol o gasglu a gwerthuso adborth gan gyfranogwyr, aelodau'r gynulleidfa a rhanddeiliaid eraill

Mae Arts Award Aur yn gymhwyster Lefel 3 ac mae'n darparu 16 o bwyntiau tariff UCAS. Mae Arts Award Aur wedi'i chynllunio ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn, ond mae'n agored i unrhyw un hyd at 25 oed.

Ofqual: 500/9666/7

QiW: C00/0211/7




# Sut mae Arts Award yn cysylltu â phedwar diben y cwricwlwm newydd?

Mae Arts Award yn cefnogi datblygiad dysgwyr galluog, uchelgeisiol, drwy:

- gefnogi dysgwyr i bennu eu heriau sgiliau celfyddydol eu hunain a myfyrio ar yr hyn y gwnaethon nhw ei fwynhau a'i ddysgu
- datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffurf ar gelfyddyd
- datrys problemau drwy gwblhau heriau celfyddydol
- cynyddu sgiliau cyfathrebu mewn unrhyw ffordd y gall eraill ei deall, yn cynnwys ar lafar ac yn ddigidol
- archwilio'r celfyddydau yn y gymuned, yn ogystal â gwaith artistiaid neu sefydliadau celfyddydol

Mae Arts Award yn cefnogi datblygiad cyfranwyr creadigol, mentrus sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith drwy:

- ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth yn y celfyddydau a gweithgareddau arwain
- defnyddio meddwl yn greadigol i ddatblygu eu sgiliau celfyddydol eu hunain, a chynllunio a darparu eu prosiectau arwain eu hunain
- cymryd risgiau mewn amgylchedd cefnogol drwy ddarparu prosiectau arwain
- cynyddu sgiliau cyfathrebu mewn unrhyw ffordd y gall eraill ei deall, yn cynnwys ar lafar ac yn ddigidol
- adnabod eu rôl arwain eu hunain wrth gynllunio a chyflawni prosiect
- datblygu a darparu tasgau rhannu sgiliau
- meithrin datblygiad sgiliau entrepreneuriaid a threfnu



Arts Award supports the development of ethical, informed Mae Arts Award yn cefnogi datblygiad dinasyddion gwybodus, moesegol o Gymru a'r byd drwy:

- gefnogi pobl ifanc i ffurfio a chyfathrebu eu safbwyntiau eu hunain ynglŷn â materion celfyddydol
- dysgu sut i weithio'n effeithiol ag eraill
- datblygu sgiliau arwain personol
- deall sut mae'r celfyddydau yn y gymuned yn cysylltu â'n bywydau bob dydd
- darparu cyfleoedd i archwilio ffurfiau ar gelfyddyd mewn diwylliannau eraill fel enghraifft o ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae Arts Award yn cefnogi datblygiad unigolion hyderus, iach sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas drwy:

- gefnogi llesiant drwy ddatblygu hyder, sgiliau cyfathrebu ac arwain
- cymryd rhan mewn gweithgarwch ffisegol drwy gyfranogiad gweithredol mewn ffurfiau ar gelfyddyd
- datblygu hyder wrth berfformio a chyfathrebu
- ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'u cynghorwyr Arts Award, cyfoedion, artistiaid ac aelodau o'r gymuned.

## Sgiliau sy'n Hanfodol i'r Pedwar Diben

Bydd Arts Award yn helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben drwy ei fframweithiau craidd. Er enghraifft:

### Creadigrwydd ac arloesedd

- rhoi cynnig ar ffurfiau newydd ar gelfyddyd i ddatblygu sgiliau creadigol
- adnabod gwendidau ac adnabod ffurfiau ar gelfyddyd i gefnogi datblygiad yn y maes hwn
- cyfathrebu cynlluniau prosiect yn glir i eraill

### Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

- cynllunio ac adolygu prosiectau arwain y celfyddydau a rhannu sgiliau, gan ddiwygio cynlluniau lle bo angen
- gwneud penderfyniadau am eu taith ddysgu unigol
- datblygu eu hadolygiadau hunain o ddigwyddiadau celfyddydol

### Effeithiolrwydd Personol

- datblygu hyder yn y celfyddydau a sgiliau cyfathrebu
- datblygu annibyniaeth yn eu taith ddysgu unigol a datblygu portffolio
- adnabod cryfderau a gwendidau yn y ffurf ddewisol ar gelfyddyd
- cwblhau prosiectau

### Cynllunio a threfnu

- cynllunio a chyflawni prosiectau arwain a 'rhannu sgiliau'
- myfyrio ar effeithiolrwydd cynlluniau a darpariaeth
- rhoi a derbyn adborth ar eu gwaith arwain a chreadigol



Ffoto: Coleg Technoleg Cymunedol Uckfield

# Sut mae Arts Award yn alinio â maes y Celfyddydau Mynegiannol o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru?

Mae fframwaith hyblyg Arts Award wedi'i ddylunio i alluogi darpariaeth i bobl ifanc mewn unrhyw leoliad lle maent mewn cysylltiad â gweithgarwch diwylliannol a chelfyddydol. Mae'n galluogi pobl ifanc i ehangu eu sgiliau creadigol, cyfathrebu ac arwain drwy ddatblygu portffolio sy'n dangos tystiolaeth o daith ddysgu unigol. Gellir cyflwyno tystiolaeth mewn unrhyw fformat y gall eraill ei ddeall - digidol, drwy lyfr lloffion, lluniadau anodedig, blogiau, flogiau etc. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Yn ogystal â datblygu fel artistiaid yn eu hawl eu hunain, anogir pobl ifanc i archwilio gwaith artistiaid eraill a sefydliadau celfyddydol, ac adolygu digwyddiadau celfyddydol, gan eu caniatáu i werthfawrogi gwaith creadigol pobl eraill. Drwy hyn gallant ddatblygu gwerthfawrogiad o'r celfyddydau a thraddodiadau diwylliannol Cymru a nifer o gymdeithasau a grwpiau eraill.

Ymdrinnir â Sgiliau Hanfodol yn y Celfyddydau Mynegiannol ar lefelau Arian ac Aur yn benodol, lle gall pobl ifanc archwilio eu sgiliau arwain. Drwy ddarparu prosiect arwain y celfyddydau, mae pobl ifanc yn datblygu sgiliau megis cynllunio ac adolygu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, yn ogystal â rheoli amser a bodloni terfynau amser. Gofynnir hefyd i bobl ifanc gysylltu ag artistiaid proffesiynol a sefydliadau, a dysgu mwy am yrfaoedd yn y celfyddydau, yn ogystal â llwybrau addysgol a chyfleoedd yn y celfyddydau yng Nghymru.

Mae'r dysgu a'r profiad mae pobl ifanc yn ei ddatblygu drwy gymryd rhan yn Arts Award yn annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd a all helpu dysgwyr i fachu ar y cyfleoedd ac ymateb i'r heriau sy'n codi yn eu bywydau.



## Datganiad o'r hyn sy'n bwysig

### Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Yn sail i bob lefel Arts Award mae set o feini prawf asesu sy'n monitro gwybodaeth a dealltwriaeth o ffurf ar gelfyddyd, creadigrwydd a chyfathrebu. Mae pum lefel Arts Award yn creu llwybr y gall pobl ifanc ei ddefnyddio i adeiladu a datblygu eu hadnoddau ac ymarfer celfyddydol. Ar lefelau cynnar Darganfod ac Archwilio, gall hyn fod drwy chwarae a phrofiad ymarferol, gyda'r lefelau uwch, yn enwedig Aur, yn caniatáu ar gyfer ymchwilio ac ymholi ffurfiol.

Mae Arts Award yn annog diffiniad eang o'r celfyddydau sy'n cwmpasu'r celfyddydau gweledol, y celfyddydau perfformio, llenyddiaeth, pensaernïaeth, celf a dylunio, a'r cyfryngau digidol, gan roi'r cyfle i bobl ifanc archwilio ystod eang o ffurfiau a disgyblaethau o fewn y celfyddydau mynegiannol.

Gall Arts Award ddarparu model hefyd ar gyfer archwilio treftadaeth ddiwylliannol Cymru, yn ogystal â threftadaeth a diwylliannau eraill.

### Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Mae hunanfyfyrio, adnabod cryfderau a gwendidau, a chynllunio sut i well wth wraidd Arts Award. Gofynnir i bobl ifanc ar bob lefel Arts Award i fyfyrio ar yr hyn y gwnaethon nhw ei ddysgu, i rannu eu gwybodaeth a sgiliau, a cheisio adborth gan eraill.

Wrth archwilio gwaith artistiaid eraill, neu brofi digwyddiadau celfyddydol fel cynulleidfa, gofynnir i bobl ifanc fyfyrio ar y darn o gelf ac ymateb yn feirniadol iddo. Ar lefel Darganfod ac Archwilio gall hyn fod yn ymateb synhwyrol e.e. 'beth wnaethoch chi ei fwynhau amdano', tra ar lefel Efydd, Arian ac Aur mae'r ymateb beirniadol hwn yn tyfu i ystyried rhinweddau artistig ac effaith greadigol, gan annog defnydd o iaith sy'n briodol i'r ffurf ar gelfyddyd.

### Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Yn ogystal ag annog pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn eu ffurf ar gelfyddyd, mae Arts Award hefyd yn eu hannog i greu a rhannu eu gwaith yn weithredol, gan fyfyrio drwyddi draw ar eu proses greadigol, er enghraifft yn Rhan C, 'Creu', Archwilio. Yn benodol ar lefel Arian ac Aur mae ffocws ar ddatblygu fel artist yn eich hawl eich hun a datblygu eich ymarfer eich hun, drwy er enghraifft 'her gelfyddydol' y wobr Arian neu brosiect 'estyn eich ymarfer celfyddydol eich hun' y wobr Aur. Rhaid i bobl ifanc gyflwyno a rhannu eu gwaith gan ystyried eu cynulleidfa neu gyfranogwyr.

## Egwyddorion dilyniant

Yn ogystal gall Arts Award gefnogi egwyddorion dilyniant drwy greu llwybr clir y gall pobl ifanc ei ddefnyddio i wneud cynnydd, gan adeiladu ar eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, a dangos tystiolaeth o'u cynnydd.

# Camau Nesaf

Dysgwch fwy am ddechrau arni gydag Arts Award, neu trefnwch le ar ein hyfforddiant i gynghorwyr. Mae gan Arts Award gyrsiau hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys cyrsiau sydd wedi'u teilwra tuag at ddarpariaeth i'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc gydag anghenion addysgu arbennig, anableddau neu anawsterau dysgu eraill neu anghenion ychwanegol.

Bydd angen ichi wneud cais i ddod yn Ganolfan Arts Award ddilys cyn y gallwch enwebu pobl ifanc am Arts Award. Wedi ichi asesu eu portffolios, gallwch enwebu pobl ifanc am Arts Award.

Os byddwch yn cael eich dewis ar gyfer safoni, rydym yn argymell eich bod yn edrych ar yr llyfrgell adnoddau, lle mae nifer o adnoddau, canllawiau a rhestrau gwirio defnyddiol i'w cael, i sicrhau bod popeth mewn trefn gennych er mwyn i'r broses safoni fynd rhagddi'n ddidrafferth.

Ystyriwch drefnu sesiwn gymorth ag un o'n hymgynghorwyr cymorth.

Am ragor o erthyglau ac astudiaethau achos a allai ysbrydoli eich darpariaeth edrychwch ar blog. Efallai yr hoffech gyfeirio eich pobl ifanc at Arts Award Voice, hefyd, ein cylchgrawn ar-lein dan arweiniad pobl ifanc.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw beth a grybwyllir yn yr adnodd hwn, e-bostiwch support@trinitycollege.com